Diweddariadau o WCVA

16 Gorffennaf 2018

Helo, a chroeso i'r cylchlythyr wythnos yma.

recriwt3 yw'r hyb swyddi arlein i'r trydydd sector, yn canfod pobl ddawnus ac uchelgeisiol i weithio yn y trydydd sector yng Nghymru, a helpu pobl i ddod o hyd i swyddi sy'n gwneud gwahaniaeth go iawn ym mywydau pobl. Y llynedd lansiodd recriwt3 ei wefan newydd sbon sy'n cynnwys y cyfle i gofrestru i gael hysbysiadau o swyddi yn syth i'ch mewnflwch. Mae cofrestru ar gyfer hysbysiadau o swyddi yn ffordd ragweithiol o ddarganfod pryd y mae gan recriwt3 y swydd berffaith i chi. Ewch ar y wefan i gael gwybod mwy.

Cynhelir cyfarfod nesaf Fforwm Cymdeithas Sifil ar Brexit ar 24 Gorffennaf yng Nghaerdydd. Diben y Fforwm yw cael cyfarwyddyd clir gan aelodau ynglyn â'u prif feysydd o ddiddordeb mewn perthynas â Brexit, beth yw eu prif bryderon a'r hyn yr hoffent ddylanwadu arno. Bydd hyn yn helpu i lywio cyfeiriad y prosiect a'i weithgareddau. Mae'r fforwm ar agor i bob mudiad trydydd sector - rhowch wybod i ni os hoffech ddod i'r cyfarfod.

Diolch am ddarllen, fe welwn ni chi wythnos nesaf.

Gwirfoddoli
Llwyfan newydd i helpu mudiadau i recriwtio a rheoli gwirfoddolwyr

Dod â gwirfoddolwyr a mudiadau sy'n cynnwys gwirfoddolwyr at ei gilydd drwy lwyfan newydd, hawdd ei ddefnyddio

Cyffredinol WCVA
Peidiwch byth â methu'ch swydd berffaith

Y llynedd lansiodd recriwt3 ei wefan newydd sbon sy'n cynnwys y cyfle I gofrestru i gael hysbysiadau swydd wedi'u teilwra i chi.

Cyllid
Grantiau i Brosiectau sy'n Hybu Iechyd Pobl Agored i Niwed

Trydydd rownd o grantiau o Ymddireolaeth Austin and Hope Pilkington
Rhaglen Grantiau Sefydliad Scottish Power 2019

Mae Sefydliad Scottish Power nawr yn derbyn ceisiadau gan Elusennau Cofrestredig a mudiadau dielw gan ddisgwyl ariannu tua 20 prosiect dros y flwyddyn i ddod.
Cronfa Trawsnewid a Thyfu ar agor i geisiadau

Mae'r Sefydliad Cymunedol yng Nghymru wedi agor y 'Gronfa Trawsnewid a Thyfu' i helpu mudiadau gwirfoddol a chymunedol sy'n gwasanaethu'r rhai sydd mewn perygl o fod yn ddigartref.

Ymddiriedolwyr a llywodraethu
Ffydd y Cyhoedd – Ymchwil Ddiweddaraf y Comisiwn Elusennau

Mae'r Comisiwn Elusennau wedi cyhoeddi'r diweddaraf mewn cyfres o astudiaethau annibynnol, awdurdodol yn ymchwilio i'r ffactorau y mae'r cyhoedd yn eu cysylltu ag elusen y gellir ymddiried ynddi.
Yn galw pob Cwmni Buddiannau Cymunedol

A hoffech helpu i siapio datblygiad gwasanaeth newydd i alluogi Cwmnïau Buddiannau Cymunedol i ffeilio eu hadroddiad a'u cyfrifon blynyddol arlein?

Polisi a gwleidyddiaeth
Y Cyfareddol a'r Cyffredin: straeon sy'n siapio bywydau ledled Cymru

Mae prosiect Mesur y Mynydd yn cofnodi profiadau pobl o iechyd a gofal cymdeithasol yng Nghymru.
Pennu lefel y targedau interim a'r ddwy gyllideb garbon gyntaf

Datganiad Ysgrifenedig - Lesley Griffiths AC, Ysgrifennydd y Cabinet dros Ynni, Cynllunio a Materion Gwledig
Arolwg yn ymchwilio i wasanaethau cymdeithasol oedolion

Mae'r Archwilydd Cyffredinol yn chwilio am gyfraniadau gan y trydydd sector at ei astudiaeth i awdurdodau lleol a gwasanaethau cymdeithasol i oedolion.
Ymgynghoriadau'r wythnos hon

Eich cyfle i ddylanwadu ar y Gyllideb ddrafft.
Fforwm Cymdeithas Sifil ar Brexit